Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

Trefniadau ar gyfer y Cyngerdd Nadolig - Nos Fawrth, Rhagfyr 8fed am 6.30

Dylai plant yr **Uned Feithrin a'r Dosbarth Derbyn** gyrraedd yr **ystafell ymgynnull** sydd wrth ochr y llwyfan erbyn 6.10. Dylid casglu y Meithrin ar ddiwedd y noson o'r Stiwdio ar y llawr uchaf (ger y bar).Yn dilyn eu perfformiad mi fydd y Derbyn yn eistedd yn y Neuadd Fawr i wylio gweddill y perfformiad a dylid eu casglu o'u seddau ar ddiwedd y noson.
Mi fydd angen i ddisgyblion **Blynyddoedd 1 a 2** gyrraedd y Caffi Piazza erbyn 6.10. Yn dilyn eu perfformiad mi fyddant yn eistedd yn y **Neuadd Fawr** i wylio gweddill y cyngerdd. Dylid eu casglu o'u seddau ar ddiwedd y noson.
Mi fydd angen i blant **Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6** (heblaw'r band) gyrraedd yr Oriel erbyn 6.15. Dylid eu casglu o'r llwyfan ar ddiwedd y noson. Mi fydd angen i'r band gyrraedd ymyl y llwyfan erbyn 5.45 gan y byddant yn perfformio cyn y cyngerdd (5.50 – 6.10)

Dylai'r perfformiad orffen tua 8 o'r gloch - rhaglenni ar gael ar y noson yn y Neuadd Fawr – oedolion £4.00, disgyblion Ysgol Uwchradd – £1.50, (disgyblion yr Ysgol Gymraeg am ddim)

Ymarfer ar gyfer y Cyngerdd Nadolig – mi fydd disgyblion yr ysgol yn ymweld â'r Neuadd Fawr ar ddydd Llun, Rhagfyr 7fed ar gyfer ymarferion. Cyfnod Sylfaen (Meithrin y bore, Derbyn, Bl 1 a 2) yn y bore a Chyfnod Allweddol 2 (Bl 3, 4, 5 a 6 yn ystod y prynhawn. (mi fydd Meithrin y prynhawn yn ymarfer yn neuadd yr ysgol yn ystod y prynhawn)

Gwisgoedd ar gyfer y Cyngerdd Nadolig
Cyfnod Sylfaen – manylion wedi eu dosbarthu.
Cyfnod Allweddol 2 – pawb i wisgo trowsus du, esgidiau du a chrys polo coch neu wyn gyda thinsel (unrhyw liw) arno. Mae nifer o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 (yn enwedig Blynyddoedd 5 a 6) wedi cael cyfarwyddiadau penodol gan yr athrawon dosbarth.

Cymorth rhieni / gwarcheidwaid gyda chinio Nadolig yr Ysgol – os ydych yn medru cynorthwyo gyda threfniadau dosbarthu a chlirio ar ddiwrnod ein cinio Nadolig ar ddydd Mercher, Rhagfyr 16eg yna cysylltwch â'r ysgol.

Gwyliau'r Nadolig – Mi fydd yr ysgol yn cau am 3.30 ar ddydd Gwener, Rhagfyr 18fed ac yn ail agor i'r disgyblion ar ddydd Llun, Ionawr 4ydd

Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

R C Williams,

Pennaeth 1/12/15

Gwefan
www.ysgolgymraeg.cymru

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

Arrangements for the Christmas Concert on Tuesday evening, December 8th at 6.30

Nursery and Reception *children should arrive at the* ***Assembly room*** *at the side of the stage by 6.10. Nursery children should be collected from the Studio on the top floor (near the bar) at the end of the evening. Following their performance the Reception class will sit in the Great Hall to see the remainder of the concert and should be collected from their seats at the end of the evening.*
Years 1 and 2 children *should arrive at the* ***Café Piazza*** *by 6.10. Following their performance they will sit in the Great Hall to watch the remainder of the performance. Pupils should be collected from their seats at the end of the evening.*
Years 3, 4, 5 and 6 *pupils (apart from the band) should arrive at the* ***Gallery*** *by 6.15 and should be collected from the stage at the end of the evening. The band should arrive near the stage by 5.45 as they will be performing before the concert (5.50 - 6.10)*

The performance should finish around 8 o'clock. Programmes will be available from the Great Hall on the evening of the performance – adults £4.00, secondary school pupils £1.50 (Ysgol Gymraeg pupils - free of charge)

Rehearsals for the Christmas Concert – *pupils will visit the Great Hall for rehearsals on Monday, December 7th. Foundation Stage during the morning and Key Stage 2 during the afternoon. (Nursery afternoon pupils will be rehearsing in the school hall during the afternoon)*

Outfits for the Christmas Concert
Foundation Stage – details already distributed
Key Stage 2 – all pupils to wear black trousers, black shoes and the red or white school polo shirt with any colour tinsel. Many Key Stage 2 pupils (especially Years 5 and 6) have already received guidance by the class teachers.

Help from parents / guardians during school Christmas dinner - i*f you are able to help serve food and clear tables during the school Christmas dinner on Wednesday, December 16th then please contact the school.*

Christmas Holidays *– The school will close at 3.30 on Friday, December 18th and will re-open for pupils on Monday, January 4th.*

If you have any worries regarding your child's education then please contact me immediately.

R C Williams